**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Syr David Henshaw, Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru

25 Mawrth 2025

Annwyl Syr David,

Diolch am ddod i'n sesiwn graffu flynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn dilyn y cyfarfod, mae rhywun wedi cysylltu â mi, gan ofyn cwestiynau yr wyf yn gobeithio y gallwch eu hateb.

Dyma'r materion dan sylw:

Yn gyntaf, yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ddweud mai tua £1 miliwn y flwyddyn oedd y gost o redeg y canolfannau ymwelwyr yn Ynyslas, Coed y Brenin a Nant yr Arian. Mae'r ohebiaeth yr wyf wedi'i chael yn honni bod modd dangos nad yw Ynyslas yn gwneud colled.

Yn ail, fel yr ydych wedi cydnabod, nid yw wardeniaid y ganolfan ymwelwyr yn gyfrifol am faterion manwerthu ac arlwyo yn unig. Cefais wybod bod disgrifiad swydd a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn profi bod cylch gorchwyl staff y ganolfan ymwelwyr yn llawer ehangach na manwerthu ac arlwyo. Roedd y dyletswyddau swyddogol yn cynnwys sicrhau bod y cyhoedd yn cael mynediad diogel at y safle, ymhlith llawer o bethau eraill. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi sicrwydd y bydd y safle a'r llwybrau'n parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith eich bod yn cymryd rhan mewn proses i sicrhau bod yr holl swyddogaethau statudol a hanfodol yn cael eu cyflawni gan staff eraill. Fodd bynnag, mae'r person a anfonodd yr ohebiaeth ataf yn awgrymu na fyddai neb yn cynnal y mynediad hwnnw o dan y cynigion dan sylw, gan fod y swyddogaeth rheoli tir yn cael ei chyflawni gan un person yn unig, sy'n gofalu am 2,000 hectar o dir. Cefais wybod hefyd mai'r wardeniaid sy'n sicrhau bod safleoedd nythu'r cwtiaid torchog yn cael eu diogelu gan ffensys.

Yn olaf, mae pryderon wedi'u codi gyda mi ynghylch diogelwch y cyhoedd, gan fod y safle'n cynnwys traeth sydd â baner goch oherwydd bod cerrynt y llanw yn gryf, oherwydd bod sugndraeth yno, ac oherwydd bod ordnans heb ei ffrwydro o'r Ail Ryfel Byd yn cael ei ddadorchuddio'n rheolaidd yno ac yn cael ei danio'n ddiogel.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r materion hyn a godwyd gyda mi. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb i erbyn **dydd Mawrth 22 Ebrill 2025**.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau a'm cyd-aelodau o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. / We welcome correspondence in Welsh or English.